CYNGOR
Sir y Fflint
Flintshire
COUNTY COUNCIL

# Cais i'ch Lwfans Tai Lleol gael ei dalu'n uniongyrchol i'ch Landlord

## Beth yw pwrpas y ffurflen hon?

- Mae'r Lwfans Tai Lleol yn cael ei dalu, fel arfer, i'r tenant.
- Mewn rhai amgylchiadau arbennig, fodd bynnag, gallwn dalu'r Lwfans yn uniongyrchol i'r landlord.
- Bydd y wybodaeth a gawn ni yn y ffurflen hon yn ein helpu ni i benderfynu a ddylem dalu'r Lwfans Tai Lleol yn uniongyrchol i'r landlord yn eich achos chi.
- Mae'n bosibl na fydd angen i chi ateb yr holl gwestiynau ar y ffurflen ond ceisiwch roi gymaint o wybodaeth a thystiolaeth â phosibl.

## Pwy ddylai lenwi'r ffurflen hon?

Y tenant ddylai lenwi'r ffurflen os yw hynny'n bosibl, ond gall y canlynol ei llenwi hefyd:

- Teulu neu ffrindiau
- Y prif ofalwr
- Gweithiwr cymorth
- Asiantaeth cynghori neu les
- Y landlord neu'r asiant sy'n gosod yr eiddo
- Person sy'n gweithio i wasanaeth arall yn y Cyngor

Y tenant sydd i lenwi'r ffurflen bob amser a rhaid i'r tenant hefyd sylweddoli y gall hynny olygu y bydd y Lwfans Tai Lleol yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'r landlord.

Os nad yw'r tenant wedi llofnodi'r ffurflen, eglurwch pam yn y datganiad ar ddiwedd y ffurflen.

## Beth ddylech chi ei anfon gyda'r ffurflen hon?

Tystiolaeth ysgrifenedig i ategu'r wybodaeth ar y ffurflen. Gall hyn ddod o wahanol ffynonellau (darllenwch y daflen wybodaeth), gan ddibynnu ar amgylchiadau'r person, e.e.:

- Grwpiau lles
- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Yr Adran Gwaith a Phensiynau
- Meddyg Teulu
- Ysbyty
- Llysoedd
- Gweithwyr gofal
- Swyddogion prawf
- Teulu a ffrindiau'r tenant
- Y landlord neu'r asiant sy'n  gosod yr eiddo

Sylwch nad yw'r rhestr yn gynhwysfawr a gallwch anfon tystiolaeth o ffynonellau eraill hefyd.

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Enw'r tenant | |
| | Cyfeirnod Budd-dal Tai | |

| | | |
|---|---|---|
| 2. | Cyfeiriad y tenant | |
| | | |
| | | |
| | Rhif ffôn | |

| | | |
|---|---|---|
| 3. | Enw, cyfeiriad a rhif ffôn y sawl sy'n llenwi'r ffurflen – os nad y tenant sy'n gwneud hynny. | |
| | | |
| | | |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| 4. | Os nad y tenant sy'n llenwi'r ffurflen, dywedwch beth yw'ch perthynas â'r tenant a'r rheswm pam rydych chi'n llenwi'r ffurflen ar ei ran. | Perthynas: |
| | | Rheswm dros lenwi'r ffurflen: |

**Amgylchiadau'r tenant**

| | | |
|---|---|---|
| 5. | Dywedwch wrthym am unrhyw anawsterau dysgu a all ei gwneud hi'n anodd i chi dalu'ch rhent. | |

| | | |
|---|---|---|
| 6. | Dywedwch wrthym am unrhyw gyflwr meddygol neu anabledd a all ei gwneud hi'n anodd i chi dalu'ch rhent. | |

| | | |
|---|---|---|
| 7. | Dywedwch wrthym am unrhyw broblemau iechyd meddwl a all ei gwneud hi'n anodd i chi dalu'ch rhent. | |

| | | |
|---|---|---|
| 8. | Ydych chi'n delio â phroblemau'n ymwneud â chyffuriau, alcohol neu gamblo? Os felly, rhowch fanylion. | |

| | | |
|---|---|---|
| 9. | Ydych chi wedi cael unrhyw drafferthion wrth ddelio â materion ariannol gan fod angen help arnoch i ddeall Saesneg?<br>Os felly, rhowch fanylion. | |
| 10. | Ydi'ch ffordd o fyw wedi newid yn ddiweddar sy'n golygu nad ydych chi'n gallu delio â'ch materion ariannol ar hyn o bryd? Os felly, rhowch fanylion. | |

| | | |
|---|---|---|
| 11. | Oes gennych chi unrhyw ôl-ddyledion rhent? | Oes ☐ Nac oes ☐ Os oes, dywedwch pam:<br><br>Faint yw'r ôl-ddyled? £<br><br>Cyfnod yr ôl-ddyled : o tan<br><br>Ydych landlord wedi cymryd camau i adennill yr ôl-ddyled h.y. achos llys, hysbysiad yn gofyn am feddiant, hysbysiad i adael yr eiddo, llythyr, cynllun talu, neu unrhyw beth arall? Rhowch fanylion ac anfonwch dystiolaeth. |

| | | |
|---|---|---|
| 12. | Ydych chi wedi cael problemau cyn hyn hefo talu'ch rhent?<br>Os felly, rhowch fanylion. | |

| | | |
|---|---|---|
| 13. | Oes swm yn cael ei ddidynnu o'ch Cymhorthdal Incwm neu'r Lwfans Ceisio Gwaith i dalu ôl-ddyledion rhent? | Oes ☐ Nac oes ☐ Os oes, anfonwch dystiolaeth |

| | | |
|---|---|---|
| 14. | Ydych chi'n cael unrhyw gymorth parhaus gan asiantaeth, sefydliad, ffrind neu berthynas ar hyn o bryd i'ch helpu i drefnu'ch taliadau rhent a'ch materion ariannol? Os felly, rhowch fanylion. | Enw'r person/sefydliad: |
| | | Rhif ffôn: |
| | | Cyfeiriad: |
| | | Manylion y cymorth: |

| | | |
|---|---|---|
| 15. | Oes yna rywun arall a all eich | Enw'r person: |

| | | |
|---|---|---|
| | helpu i reoli'ch materion ariannol? Os oes, rhowch fanylion. | Rhif ffôn:<br>Cyfeiriad: |

| | | |
|---|---|---|
| 16. | Am ba hyd ydych chi'n meddwl y bydd angen gwneud taliadau uniongyrchol i'ch landlord? | 13 wythnos ☐ 26 wythnos ☐ 52 wythnos+ ☐ |

| | |
|---|---|
| 17. | **Datganiad y Tenant :**<br>Llofnodwch y ffurflen a nodi'r dyddiad. Os oes gennych bartner dylai o/hi lofnodi'r ffurflen hefyd.<br><br>▪ Mae'r wybodaeth ar y ffurflen yn wir ac yn gywir.<br>▪ Rwy'n cytuno y dylai fy Lwfans Tai Lleol gael ei dalu'n uniongyrchol i fy landlord, hyd at swm fy rhent cytundebol.<br>▪ Byddaf yn cysylltu â'r adran Budd-daliadau Tai os byddaf yn teimlo y gallaf dderbyn fy mudd-dal yn uniongyrchol.<br>▪ Rwyf wedi darllen a deall y datganiad.<br><br>Eich llofnod......................................... Eich partner..................................................<br><br>Dyddiad ....................................<br><br>COFIWCH GYNNWYS UNRHYW DDOGFENNAU FEL TYSTIOLAETH I ATEGU'R CAIS |

| | |
|---|---|
| 18. | **Datganiad ar gyfer y person sy'n llenwi'r ffurflen, os nad y tenant sy'n gwneud hynny:**<br><br>▪ Mae'r wybodaeth yn wir ac yn gywir.<br>▪ Rwy'n credu y bydd er lles y tenant i dalu'r Lwfans Tai Lleol yn uniongyrchol i'r landlord, hyd at swm y rhent cytundebol.<br>▪ Rwyf wedi darllen a deall y datganiad<br><br>Enw ............................................... Llofnod ..................................................<br><br>Dyddiad .................................... |

**Gwybodaeth ychwanegol**

Os hoffech unrhyw help neu gyngor gyda'r ffurflen hon, cysylltwch â ni
**Rhif ffôn:** 01352 704848. Mae'r llinell gymorth ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener 8.30am - 5pm.
**Ebost:** benefits@flintshire.gov.uk
**Cyfeiriad:** Yr Adran Budd-daliadau, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug. CH7 6NR. Mae'r swyddfa ar agor i ymwelwyr o ddydd Llun i ddydd Gwener 8.30am - 5pm a does dim angen gwneud apwyntiad.

CYNGOR
Sir y Fflint
Flintshire
COUNTY COUNCIL

**Awdurdodi'r Cyngor i Dalu'r Lwfans Tai Lleol i'r Landlord yn Uniongyrchol**

**Y LANDLORD SYDD I LENWI'R ADRAN HON**

| | |
|---|---|
| Enw: | |
| Cyfeiriad: | |
| | |
| | |
| Cod Post: | |
| Rhif ffôn yn ystod y dydd: | |

**Sylwch na fydd taliadau i'r Landlord yn gallu dechrau nes y bydd y ddogfen hon wedi'i llenwi a'i hanfon at yr Adran Budd-daliadau**

| | |
|---|---|
| Enw'r tenant: | |
| Cyfeiriad y tenant: | |
| | |
| | |
| | |

**Rwy'n fodlon derbyn taliad y Lwfans Tai Lleol uchod yn amodol ar yr amodau isod**

**AMODAU**

1. **Os yw'r Lwfans Tai Lleol yn cael ei ordalu, mae gan yr Awdurdod hawl i adennill y gordaliad gan naill ai'r tenant neu'r person y talwyd y budd-dal iddo/iddi (h.y. y landlord). Bydd yr Awdurdod yn ystyried bob achos i benderfynu pwy ddylai ei ad-dalu. Os yw'r Awdurdod yn penderfynu mai'r landlord ddylai ad-dalu'r gordaliad, yna rhaid ad-dalu'r ddyled.**

2. **Rhaid i'r landlord, yn ogystal â'r tenant, roi gwybod i'r Cyngor os yw'r denantiaeth yn newid e.e. os yw'r tenant yn gadael neu os oes rhagor o bobl yn dod i fyw yn yr eiddo.**

3. **Ni all Adran Budd-daliadau'r Cyngor gymryd rhan mewn unrhyw anghydfod rhwng y landlord a'r tenant ynghylch taliadau.**

4. **Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i ddal Lwfans Tai Lleol yn ôl, neu i'w dalu i'r hawliwr os dyna sy'n cael ei benderfynu.**

5. **Ni chaiff y Cyngor ddatgelu unrhyw wybodaeth am yr hawliwr i'r landlord.**

6. **Rwyf wedi darllen a deall yr amodau uchod, felly a wnewch chi dalu'r Lwfans Tai**

**Lleol i'r cyfrif a ganlyn yn uniongyrchol;**

| | |
|---|---|
| Ym mha enw neu enwau mae'r cyfrif? | |
| Enw llawn y Banc neu'r Gymdeithas Adeiladu | |
| Cod didoli | ☐☐ - ☐☐ - ☐☐ |
| Rhif y cyfrif | ☐☐☐☐☐☐☐☐ |
| Cyfeirnod (Cyfrifon Cymdeithasu Adeiladu'n unig) | ☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐ |

Llofnod y Landlord..............................................

Dyddiad....................

**Ar ôl llenwi'r ffurflen, anfonwch hi i:**

**CYNGOR SIR Y FFLINT**
**YR ADRAN BUDD-DALIADAU**
**NEUADD Y SIR**
**YR WYDDGRUG**
**SIR Y FFLINT**
**CH7 6NA**

**Rhif ffôn:** 01352 704848. Mae'r llinell gymorth ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener 8.30am - 5pm.
**Ebost:** benefits@flintshire.gov.uk